# Enghreifftiau o destunau Pa nodweddion sy'n gyffredin?

Trefn resymegol sy'n cynnwys cyflwyniad a diweddglo

Amser presennol

Gwrthrychol, iaith amhersonol

Paragraffau yn aml yn dechrau â brawddeg bynciol

Cysyllteiriau rhesymegol

Er hynny
Felly
I'r gwrthwyneb
Cred rhai
Ar y llaw arall
Yn yr un modd
Beth bynnag

**Bydd pobl yn elwa o foddi Cwm Celyn.**

Ers 1955 mae bygythiad wedi bodoli yng Nghapel Celyn y bydd y bobl yn gorfod symud er mwyn gallu adeiladu cronfa ddŵr. Fe fydd y gronfa'n darparu dŵr yfed glân ar gyfer dinas Lerpwl, sydd wrthi'n tyfu'n gyflym iawn.

Yn wir, mae'r addewid o gartref newydd yn nes at dref y Bala neu bentref cyfagos lle mae siopau a mwy o wasanaethau yn apelio at rai. Yn yr un modd, byddai cartref modern a chlyd gydag ystafell ymolchi a thrydan yn llawer gwell na'r tyddynnod oer a hen ffermdai sydd yn y pentref nawr. Rhaid symud gyda'r oes! Ar un llaw, mae Cyngor Tref y Bala o blaid adeiladu'r argae a boddi'r cwm am y byddai'n creu nifer o swyddi sydd eu hangen. Cred rhai y byddai galw mawr am weithwyr gyda'r holl waith clirio, adeiladu a chynnal ar safle'r argae. Mae'r gymdeithas ar chwâl. Mae ambell deulu wedi hel eu pac yn barod a gadael cyn i'r penderfyniad gael ei gadarnhau. Ystyrir y byddai rheoli llif y dŵr o'r Afon Tryweryn o fudd i'r gymdeithas ehangach ac yn sicrhau na fyddai llifogydd yn nhref y Bala ymhen blynyddoedd i ddod.

Ar y llaw arall, mae yna ddadleuon cryf yn erbyn boddi'r cwm. Beth am ddiogelu treftadaeth a diwylliant y pentref Cymreig hwn? Mae hi'n gymuned glos a chanddi nifer helaeth o siaradwyr Cymraeg sydd wedi byw a bod yma ers cenedlaethau. Yn yr un modd, y capel a'r ysgol yw canolbwynt y gymuned. Maen nhw'n ganolfannau diwylliannol sy'n cynnal eisteddfodau, cyngherddau a dosbarthiadau nos yn aml. Byddai'r effaith ar deuluoedd unigol yn un andwyol. Claddwyd anwyliaid iddynt yn y fynwent. Mae rhai yn anghytuno'n gryf y dylai'r meirw hynny gael eu symud i safle arall. Mi fydd y bobl yn colli bywoliaeth - yr athrawon, gweision y fferm a'r gweinidog. Mae'r mater yn chwalu perthynas y bobl â'i gilydd. Mae rhai am symud ac eraill yn benderfynol o aros ac ymladd yr argae. Cred rhai fod yna gwmwl du dros blentyndod holl blant Capel Celyn. Ni fyddant yn gallu crwydro caeau'r ardal ymhen rhai blynyddoedd os bydd yr argae'n cael ei hadeiladu. Gofynnir pam mae rhaid difetha cwm prydferth sydd ag amgylchedd cyfoethog? Beth fydd yn digwydd i'r holl fywyd gwyllt? 'Dyw pawb ddim yn cytuno gyda'r cyngor. Does dim sicrwydd y bydd y gwaith adeiladu'n cael ei roi i bobl yr ardal. Disgwylir y bydd loriau a cheir di-ri'n heidio nôl ac ymlaen yn ystod y gwaith adeiladu. Ni fydd y cwm fyth yr un fath.

Yn fy marn i, wedi pwyso a mesur yr holl ddadleuon yn ofalus, rydw i yn erbyn caniatau i Gyngor Lerpwl foddi Cwm Celyn. Nid yw anghenion pobl Lerpwl yn bwysicach na chymuned y pentref yng Ngogledd Cymru, ac nid oes sicrwydd y bydd yr addewidion a wneir yn cael eu gwireddu.

**Meini prawf llwyddiant**

- Ydy'r ysgrifennu wedi'i strwythuro'n effeithiol?
- Ydy'r ysgrifennu'n cyflwyno dadl gytbwys ar y mater?
- Ydy'r dadleuon yn ddilys ac yn glir?
- Ydy'r cywair a'r defnydd o'r iaith yn briodol i'r pwrpas ac i'r gynulleidfa?
- Ydy'r diweddglo'n rhesymegol ac wedi'i seilio'n bennaf ar dystiolaeth a ffeithiau?

Datganiad ynghylch y mater dan sylw a rhagolwg, yn aml, o'r prif ddadleuon

Dadleuon o blaid a thystiolaeth gefnogol

Dadleuon yn erbyn a thystiolaeth gefnogol

**Neu**

Dadl/gwrth-ddadl, fesul pwynt

Crynodeb a diweddglo, personol o bosibl, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon a phenderfynu o blaid un ochr

# Trafodaeth

**Pwrpas:**

Cyflwyno dadleuon a gwybodaeth o wahanol safbwyntiau

**Cynulleidfa**:

Rhywun sydd â diddordeb mewn mater

**Dulliau o baratoi / cynllunio:**

- Athro/athrawes yn modelu'r fframwaith/fframweithiau ar gyfer ysgrifennu traethawd trin a thrafod
- Dysgwyr yn darllen enghreifftiau o ysgrifennu trin a thrafod
- Dysgwyr yn llunio grid o blaid/yn erbyn ar gyfer pob prif bwynt, gan fynegi'r dadleuon yn fyr ac yn wrthrychol a darparu tystiolaeth i gefnogi'r pwyntiau
- Dysgwyr yn cymryd rhan mewn dadl neu efelychiad i ganiatáu iddynt fynegi eu dadleuon a gwrando ar eraill sydd â barn i'r gwrthwyneb

**Strwythur Nodweddiadol:**

- Trefn resymegol, cyflwyniad a diweddglo
- Cyfres o bwyntiau gwrthgyferbyniol weithiau
- Paragraffau yn aml yn dechrau gyda brawddeg bwnc

**Nodweddion ieithyddol nodweddiadol:**

- Wedi'i ysgrifennu yn yr amser presennol
- Defnyddio cysyllteiriau rhesymegol, e.e. felly, fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, serch hynny, ar y llaw arall, fel arall
- Yn cynnwys:
  - Datganiad ynghylch y mater dan sylw a rhagolwg, yn aml, o'r prif ddadleuon
  - Dadleuon o blaid a thystiolaeth gefnogol
  - Dadleuon yn erbyn a thystiolaeth gefnogol

Neu

  - Dadl/gwrthddadl, fesul pwynt
  - Crynodeb a diweddglo, personol o bosibl, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon a phenderfynu o blaid un ochr
- Dylid defnyddio iaith wrthrychol, amhersonol ac eithrio yn y diweddglo, o bosibl, lle gellir rhoi barn bersonol fel sylw wrth gloi

**Cyd-destunau posibl:**

- Traethawd ar achosion rhywbeth, e.e. 'Mae'r trafod yn parhau ynghylch a yw twymo byd-eang yn bodoli ac, os ydyw, sut y gellir ei atal'

Mae materion yn codi ym mhob pwnc yn y cwricwlwm pryd y bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol bod mwy nag un safbwynt dilys. Mae angen iddynt osgoi ffurfio barn anwybodus yn fuan, gwerthfawrogi barn pobl eraill ac asesu'r mater dan sylw yn gytbwys. Gallant ysgrifennu am fanteision ac anfanteision

- effaith datblygu trefol mewn daearyddiaeth
- ailgylchu mewn gwyddoniaeth
- darlun penodol mewn celf a dylunio
- prynu nwyddau rhad o wledydd sy'n datblygu
- ffonau symudol a'u defnydd mewn ysgolion mewn ABCh
- y ddadl ynghylch bwydydd iach mewn dylunio a thechnoleg
  neu
- ffyrdd gwahanol o ddehongli/cynrychioli'r un digwyddiad neu unigolyn mewn hanes

**Meini prawf llwyddiant:**

- Ydy'r ysgrifennu wedi'i strwythuro'n effeithiol?
- Ydy'r ysgrifennu'n cyflwyno dadl gytbwys ar y mater?
- Ydy'r dadleuon yn ddilys ac yn glir?
- Ydy'r cywair a'r defnydd o'r iaith yn briodol i'r pwrpas ac i'r gynulleidfa?
- Ydy'r diweddglo'n rhesymegol ac wedi'i seilio ar dystiolaeth a ffeithiau?